



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 2926 (Cy.261)

2006 No. 2926 (W.261)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Defaid a Geifr
(Cofnodion, Adnabod a Symud)
(Cymru) (Diwygio) 2006**

**The Sheep and Goats (Records,
Identification and Movement)
(Wales) (Amendment) Order 2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006 ("y prif Orchymyn").

This Order amends the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006 ("the principal Order").

Mae Erthyglau 2(2) a 3 yn diwygio darpariaethau'r prif Orchymyn ar adnabod anifeiliaid a gaiff eu symud i Aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd. Maent yn symud ymaith y posibilrwydd o nodi anifail o'r fath gyda "tag X" (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(1) o'r prif Orchymyn). Mae Erthygl 3(3) yn diwygio Erthygl 16 o Atodlen 1 i'r prif Orchymyn gan beri, yn achos anifail a gaiff ei symud o ddaliad i ganolfan gynnull ar gyfer ei gludo i Aelod-wladwriaeth arall, bod rhaid gosod ail dag clust arno cyn i'r anifail adael y daliad.

Articles 2(2) and 3 amend provisions of the principal Order on the identification of animals moved to another member State of the European Union. They remove the possibility of marking such an animal with an "X tag" (as defined in Article 2(1) of the principal Order). Article 3(3) amends Article 16 of Schedule 1 to the principal Order so that, in the case of an animal moved from a holding to an assembly centre for consignment to another member State, a second eartag must be applied before the animal leaves the holding.

Mae paragraffau (3) i (6) o Erthygl 2 yn diwygio darpariaethau'r prif Orchymyn ar osod tagiau neu ddulliau eraill o adnabod yn lle rhai a gafodd eu tynnu, a gollwyd neu a aeth yn annarllenadwy. Effaith y diwygiadau yw bod rhaid gosod modd adnabod yn lle un a gollwyd cyn gynted ag y bo modd, ond dim mwy na 28 niwrnod, ar ôl i'r un gwreiddiol gael ei golli, neu ar ôl canfod y golled neu'r annarllenadwyedd, ond ym mhob achos cyn i'r anifail adael y daliad.

Paragraphs (3) to (6) of Article 2 amend provisions of the principal Order on the replacement of removed, lost or illegible eartags or other means of identification. The effect of the amendments is that a replacement means of identification must be applied as soon as possible, but no later than 28 days, after the removal or the discovery of the loss or illegibility of the identification, but in any event before the animal leaves the holding.

Mae Erthygl 2(7) yn mewnosod darpariaethau gorfodi newydd yn y prif Orchymyn. Mae Erthygl 34A yn rhoi amrediad o bwerau i arolygwyr, ac mae Erthygl 34B yn rhoi pŵer iddynt wahardd symud anifeiliaid ar ddaliad, i ddaliad ac oddi yno, drwy hysbysiad a gyflwynir i geidwad, os ydynt wedi'u

Article 2(7) inserts new enforcement provisions into the principal Order. Article 34A gives a range of powers to inspectors, and Article 34B gives them a power to prohibit the movement of animals on, to or from a holding, by notice served on a keeper, if satisfied that the prohibition is necessary for the proper

bodloni bod gwaharddiad yn angenrheidiol er mwyn gorfodi'r prif Orchymyn yn briodol. Ceir Erthyglau 34C, 34Ch a 34D newydd yn ymwneud â rhoi cymorth rhesymol i berson sy'n gweithredu o dan y prif Orchymyn, â darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, ac â thramgwyddau a gyflawnir gan gyrff corfforaethol.

Mae Erthygl 3 a'r Atodlen yn cymryd lle Atodlen 3 i'r prif Orchymyn, sy'n rhagnodi'r ffurflen ar gyfer cofnodi symudiadau anifeiliaid. Mae'r ffurflen newydd yn cynnwys blwch i gofnodi'r cyfnod y disgwylir i'r daith ei chymryd. Mae hyn yn ofynnol gan Erthygl 4 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 (O.J. L3, 5.01.2005, t.1) ar warchod anifeiliaid yn ystod eu cludo a gwaith cysylltiedig.

Cafodd Arfarniad Rheoliadol ei baratoi. Gellir cael copïau ohono oddi wrth yr Adran dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

enforcement of the principal Order. New Articles 34C, 34D and 34E relate to the giving of reasonable assistance to a person acting under the principal Order, to the provision of false or misleading information, and to offences committed by bodies corporate.

Article 3 and the Schedule substitute Schedule 3 to the principal Order, which prescribes the form for recording animal movements. The new form contains a field to record the expected duration of the journey. This is a requirement of Article 4 of Council Regulation (EC) No. 1/2005 (O.J. L3, 5.1.2005, p.1) on the protection of animals during transport and related operations.

A Regulatory Appraisal has been prepared. Copies can be obtained from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2006 Rhif 2926 (Cy.261)**2006 No. 2926 (W.261)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH****Gorchymyn Defaid a Geifr
(Cofnodion, Adnabod a Symud)
(Cymru) (Diwygio) 2006****The Sheep and Goats (Records,
Identification and Movement)
(Wales) (Amendment) Order 2006***Wedi'i wneud**7 Tachwedd 2006**Made**7 November 2006**Yn dod i rym**1 Ionawr 2007**Coming into force**1 January 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1, 8(1) ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1) ac a freiniwyd ynddo bellach, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1) and 83(2) of the Animal Health Act 1981(1) and now vested in it, makes the following Order:

Enwi, cymhwyso a chychwyn**Title, application and commencement**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006.

1.-(1) The title of this Order is the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) (Amendment) Order 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2007.

(3) This Order comes into force on 1 January 2007.

**Diwygio Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru) 2006****Amendment of the Sheep and Goats (Records,
Identification and Movement) (Wales) Order 2006**

2.-(1) Diwygir Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006(2) fel a ganlyn.

2.-(1) The Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006(2) is amended as follows.

(2) Yn erthygl 8 (Adnabod anifeiliaid a symudir i Aelod-wladwriaeth arall o'r daliad geni neu o'r daliad mewnforio), yn lle paragraff (2) rhodder-

(2) In article 8 (Identification for animals moved to another Member State from the holding of birth or holding of import), for paragraph (2) substitute-

"(2) Mae'n rhaid bod gan yr ail ddull o adnabod god adnabod sydd yn union yr un fath â'r cod a ddefnyddiwyd yn y dull cyntaf o adnabod o dan erthygl 6(3), yn achos anifail a aned yng Nghymru,

"(2) The second means of identification must bear an identification code identical to that applied to the first means of identification under article 6(3), in the case of an animal born in Wales, or

(1) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the appropriate Minister" ac i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i'r "Secretary of State", ac eithrio'r swyddogaethau hynny a gynhwysir yn Atodlen 1 o Ddeddf 1981, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044).

(1) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 Act upon "the appropriate Minister" and "the Ministers" were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Functions conferred under the 1981 Act upon "the Secretary of State", except those functions contained in Schedule 1 of the 1981 Act, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044).

(2) O.S. 2006/1036 (Cy. 106).

(2) S.I. 2006/1036 (W. 106).

neu erthygl 10(3) yn achos anifail a fewnforiwyd o drydedd wlad."

(3) Yn erthygl 13 (Rhoi dull newydd o adnabod gyda chod gwahanol yn lle'r hen un)-

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder-

"(1A) Rhaid i geidwad wneud yr hyn sy'n ofynnol gan baragraff (1) cyn gynted ag y bo modd, ond dim mwy na 28 niwrnod, ar ôl canfod bod y modd adnabod yn annarllenadwy neu ar goll, ond ym mhob achos cyn i'r anifail gael ei symud o'r daliad.";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder-

"(2A) Rhaid i geidwad wneud yr hyn sy'n ofynnol gan baragraff (2) cyn gynted ag y bo modd, ond dim mwy na 28 niwrnod, ar ôl canfod bod y modd adnabod yn annarllenadwy neu ar goll, ond ym mhob achos cyn i'r anifail gael ei symud o'r daliad.".

(4) Yn erthygl 23 (Tynnu tagiau clust neu roi rhai newydd yn eu lle), ym mharagraff (3), (4) a (5)-

(a) yn lle "6 mis" rhodder "28 niwrnod";

(b) yn lle "i'r tag symud gael ei dynnu neu ei golli neu ar ôl sylwi ei fod yn annarllenadwy" rhodder "canfod bod y tag symud ar goll neu'n annarllenadwy".

(5) Yn erthygl 24 (Tynnu tagiau clust a thatws o dan Orchmynion blaenorol neu roi rhai newydd yn eu lle)-

(a) ym mharagraff (3)-

(i) yn lle "6 mis" rhodder "28 niwrnod";

(ii) yn lle "sylwi ei golli neu ar ar ôl sylwi ei fod yn annarllenadwy" rhodder "ar ôl sylwi ei fod wedi ei golli neu ei fod yn annarllenadwy".

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder-

"(4A) Rhaid i geidwad wneud yr hyn sy'n ofynnol gan baragraff (4) cyn gynted ag y bo modd, ond dim mwy na 28 niwrnod, ar ôl canfod bod y tag tarddiad wedi cael ei dynnu neu ar ôl canfod ei fod ar goll neu yn annarllenadwy, ond ym mhob achos cyn i'r anifail gael ei symud o'r daliad.";

(c) ar ôl paragraff (5) mewnosoder-

"(5A) Rhaid i geidwad wneud yr hyn sy'n ofynnol gan baragraff (5) cyn gynted ag y bo modd, ond dim mwy na 28 niwrnod, ar ôl i'r nod F gael ei dynnu, neu ar ôl canfod ei fod ar goll neu yn annarllenadwy, ond ym mhob achos cyn i'r anifail gael ei symud o'r daliad.";

(ch) ar ôl paragraff (6) mewnosoder-

"(6A) Rhaid i geidwad wneud yr hyn sy'n ofynnol gan baragraff (6) cyn gynted ag y bo modd, ond dim mwy na 28 niwrnod ar ôl i'r nod R gael ei dynnu, neu ar ôl canfod ei fod ar goll neu yn annarllenadwy, ond ym mhob achos cyn i'r anifail gael ei symud o'r daliad.".

article 10(3), in the case of an animal imported from a third country."

(3) In article 13 (Replacement of the means of identification with a different code)-

(a) after paragraph (1) insert-

"(1A) The keeper must do what is required by paragraph (1) as soon as possible, but no later than 28 days, after the identification was discovered to be illegible or lost, but in any event before the animal is moved from the holding.";

(b) after paragraph (2) insert-

"(2A) The keeper must do what is required by paragraph (2) as soon as possible, but no later than 28 days, after the identification was discovered to be illegible or lost, but in any event before the animal is moved from the holding.".

(4) In article 23 (Removal or replacement of eartags), in paragraphs (3), (4) and (5)-

(a) for "6 months" substitute "28 days";

(b) for "lost or discovered to be illegible" substitute "or discovered to be lost or illegible".

(5) In article 24 (Removal or replacement of eartags and tattoos applied under previous Orders)-

(a) in paragraph (3)-

(i) for "6 months" substitute "28 days";

(ii) for "lost or discovered to be illegible" substitute "or discovered to be lost or illegible";

(b) after paragraph (4) insert-

"(4A) The keeper must do what is required by paragraph (4) as soon as possible, but no later than 28 days, after the origin mark was removed, or discovered to be lost or illegible, but in any event before the animal is moved from the holding.";

(c) after paragraph (5) insert-

"(5A) The keeper must do what is required by paragraph (5) as soon as possible, but no later than 28 days, after the F mark was removed, or discovered to be lost or illegible, but in any event before the animal is moved from the holding.";

(d) after paragraph (6) insert-

"(6A) The keeper must do what is required by paragraph (6) as soon as possible, but no later than 28 days, after the R mark was removed, or discovered to be lost or illegible, but in any event before the animal is moved from the holding.".

(6) Yn erthygl 25 (Rhoi tagiau clust newydd yn lle rhai a gollwyd mewn marchnadoedd), ym mharagraff (2), ar ôl "cyn gynted ag y bo modd" mewnosoder", ond dim mwy na 28 niwrnod ar ôl i'r tag clust neu'r tatŵ gael ei dynnu, neu ar ôl canfod ei fod ar goll neu'n annarllenadwy".

(7) Yn Rhan 9 (Amrywiol), cyn erthygl 35 (Gorfodi), mewnosoder-

"Pwerau arolygwyr

34A. At unrhyw ddiben yn ymwneud â gorfodi'r Gorchymyn hwn, caiff arolygydd-

- (a) casglu, corlannu a marcio unrhyw anifail, ac at y diben hwn gall ofyn i geidwad drefnu casglu, corlannu, marcio a dal gafael ar unrhyw anifail;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i'r ceidwad beri bod unrhyw gopi neu gofnodion ar gael;
- (c) symud ymaith a chadw unrhyw ddogfen neu gofnod;
- (ch) cael mynediad i, a gwirio gweithrediad, unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio neu sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â chofnodion;
- (d) pan fo cofnod yn cael ei gadw ar gyfrifiadur, ei gwneud yn ofynnol i'r cofnod fod ar gael mewn ffurf y gellir ei gymryd ymaith;
- (dd) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dagiau clust nas defnyddiwyd fod ar gael, a chofnodi eu rhifau;
- (e) fynd â chynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gweithredu at ddibenion o Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor, neu unrhyw bobl neu bethau eraill sydd yn ei dyb ef yn angenrheidiol, gydag ef.

Pŵer i wahardd symud anifeiliaid

34B.-(1) Caiff arolygydd, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad, wahardd symud anifeiliaid i'r daliad a bennir yn yr hysbysiad, neu oddi arno, os yw'r arolygydd wedi'i fodloni bod gwaharddiad yn angenrheidiol er mwyn gorfodi'r Gorchymyn hwn yn briodol.

(2) Gellir diwygio neu ddirymu hysbysiad o dan baragraff (1) drwy hysbysiad pellach ar unrhyw adeg.

Cymorth rhesymol

34C. Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo roi cymorth rhesymol neu wybodaeth i berson sy'n gweithredu o dan y Gorchymyn hwn wneud hynny yn ddi-oed, oni bai bod ganddo achos rhesymol i beidio.

(6) In article 25 (Replacement of eartags lost at markets), in paragraph (2), after "as soon as possible" insert ", but no later than 28 days, after the eartag or tattoo was removed, or discovered to be lost or illegible,".

(7) In Part 9 (Miscellaneous), before article 35 (Enforcement), insert-

"Powers of inspectors

34A. An inspector may, for any purpose relating to the enforcement of this Order-

- (a) collect, pen and mark any animal and require a keeper to arrange for the collection, penning, marking and securing of any animal;
- (b) require the keeper to produce or copy any record;
- (c) remove and retain any document or record;
- (d) have access to, and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been used in connection with records;
- (e) where a record is kept by means of a computer, require the record to be produced in a form which may be taken away;
- (f) require the production of any unused eartags and record their numbers;
- (g) take with him or her a representative of the European Commission acting for the purposes of Article 12 of the Council Regulation, or any other people or things he or she considers necessary.

Power to prohibit movement of animals

34B.-(1) An inspector may, by serving notice on a keeper, prohibit the movement of animals to or from the holding specified in the notice, if the inspector is satisfied that the prohibition is necessary for the proper enforcement of this Order.

(2) A notice served under paragraph (1) may be amended or revoked by further notice at any time.

Reasonable assistance

34C. Any person required to give reasonable assistance or information to a person acting under this Order must, unless he or she has reasonable cause, do so without delay.

Gwybodaeth anwir

34Ch. Rhaid i berson beidio â rhoi gwybodaeth y gŵr yr ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i berson sy'n gweithredu o dan y Gorchymyn hwn.

Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

34D-(1) Os dangosir bod tramgwydd yn erbyn y Ddeddf sydd wedi ei gyflawni gan gorff corfforaethol-

- (a) wedi cael ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog; neu
- (b) i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

bydd y swyddog hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Os yw materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffygion aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau'r aelod hwnnw o ran rheoli megis petai yn gyfarwyddwr i'r corff.

(3) Ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod o bwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb o'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swydd o'r fath."

Diwygio Atodlen 1 i Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

3.-(1) Diwygir Atodlen 1 i Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006 fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 6, yn lle is-baragraff (3) rhodder-

"(3) Pan fo anifail yn cael ei draddodi o ddaliad yr adnabod i Aelod-wladwriaeth arall, rhaid i'r ceidwad roi tag adnabod arall ar yr anifail gyda chod sy'n union yr un fath â'r cyntaf a nodi'r cod sydd ar y tagiau adnabod yng nghofrestr y ceidwad ac yn y ddogfen symud."

(3) Ym mharagraff 16 (symud i Aelod-wladwriaeth arall drwy ganolfan gynnull)-

(i) yn is-baragraff (3), ar ôl "ceidwad", dileer y gair "cofnodi" a mewnosoder "osod ail dag clust neu dransbonder electronig ar yr anifail sy'n dwyn ei god adnabod unigol, a chofnodi";

(ii) yn yr is-baragraff hwnnw, yn lle "Rhif" rhodder "cod";

(iii) yn lle is-baragraff (6) rhodder-

"(6) Nid yw is-baragraff (5)(a) yn gymwys ond o

False information

34D. A person must not furnish information which he or she knows to be false or misleading to a person acting under this Order.

Offences by bodies corporate

34E.-(1) If an offence against the Act committed by a body corporate is shown-

- (a) to have been committed with the consent or connivance of an officer; or
- (b) to be attributable to any neglect on the part of an officer,

the officer as well as the body corporate is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with the member's functions of management as if he or she were a director of the body.

(3) "Officer", in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity."

Amendment of Schedule 1 to the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006

3.-(1) Schedule 1 to the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006 is amended as follows.

(2) In paragraph 6, for sub-paragraph (3) substitute-

"(3) When an animal is consigned from the holding of identification to another member State, the keeper must attach a second identification tag to the animal with a code identical to the first and enter the code on the identification tags in the keeper's register and in the movement document."

(3) In paragraph 16 (movements to another member State through an assembly centre)-

(i) in sub-paragraph (3), after "must" insert "attach a second eartag or an electronic transponder to the animal bearing its individual identification code, and";

(ii) in that sub-paragraph, for "number" substitute "code";

(iii) for sub-paragraph (6), substitute-

"(6) Sub-paragraph (5)(a) applies only in relation

ran anifeiliaid a gafodd eu symud o'r daliad y cyfeirir ato yn is-baragraff (3) cyn i Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Cymru) 2006 ddod i rym."

(4) Ym mharagraff 17 (symud i Aelod-wladwriaeth arall drwy ganolfan gynnull)-

- (i) yn is-baragraff (3), hepgorer y geiriau "Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4)";
- (ii) hepgorer is-baragraff (4).

Cymryd lle Atodlen 3 i Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

4. Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, sy'n cymryd lle Atodlen 3 i Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006, yn effeithiol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

7 Tachwedd 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

to animals which were moved from the holding referred to in sub-paragraph (3) before the coming into force of the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Amendment) (Wales) Order 2006."

(4) In paragraph 17 (movements to another member State (other than through an assembly centre))-

- (i) in sub-paragraph (3), omit "Subject to sub-paragraph (4)";
- (ii) omit sub-paragraph (4).

Substitution of Schedule 3 to the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006

4. The Schedule to this Order, which substitutes Schedule 3 to the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006, has effect.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

7 November 2006

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN

SCHEDULE

Erthygl 4

Article 4

Yn lle Atodlen 3 i Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Lloegr) 2005, rhodder:

For Schedule 3 to the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006, substitute

"ATODLEN 3

"SCHEDULE 3

Erthygl 17(3)(a)

Article 17(3)(a)

:

Dogfen Symud o dan Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

Adran A - Adnabod ac olrhain. (A fyddech cystal â llenwi Adran C isod hefyd.)

1. Manylion ymadael CPH/
Cyfeirnod arall Dychwelyd o Tac? Dychwelyd o dreialon
cŵn defaid
- Dychwelyd ar ôl eu casglu ynghyd o dir comin?

Enw'r ceidwad a chyfeiriad llawn y daliad **Ymadael**

Cod post

Enw a chyfeiriad llawn y **Perchennog** (os yn wahanol)

Cod post

2. **Manylion y defaid** **geifr** (Ticiwch y blwch priodol)

Nifer yr anifeiliaid	Disgrifiad (e.e. mamogiaid, mynnod geifr)	Rhif Lot	Cod Perthnasol neu Nod y Ddiadell/Geifre
Cyfanswm yr anifeiliaid			

Yr wyf yn datgan bod y manylion uchod yn gywir

Llofnod y Ceidwad

Dyddiad

Rhif ffôn

Enw - PRIF lythrennau

(+ cod deialu cenedlaethol)

Adran B - Manylion y cludwr

Name and full postal address

Cod Post

Rhif Cynllun
Gwarant

--

Rhif cofrestru'r cerbyd
(au)/Rhif adnabod
yr ôl-gerbyd

--

Dyddiad a lleoliad
glanhau'r cerbyd
ddiwethaf

--

Rhif trwydded y Cludwyr
(*lle bo'n briodol*)

--

Cyfnod Disgwyliedig
y Siwrnai Arfaethedig

Llwytho

Dyddiad:

--

Dyddiad:

--

Dechrau::

--

Amser::

--

Ymadael

Dadlwytho

Dyddiad:

--

Gorffen:

--

**Amser a'r lleoliadau lle arhoswyd i orffwys
gan gynnwys os cafodd yr anifeiliaid ddŵr
ac/neu fwyd (os dros 8 awr)**

--

Rhif ffôn (+ cod deialu cenedlaethol)

--

Llofnod y Cludwr

--

Enw mewn PRIFLYTHRENNAU

--

Adran C - Manylion cyrchu (1)

Enw a chyfeiriad llawn

Cod Post

**Nodwch y math o Farchnad neu
Ganolfan Casglu, lle bo'n briodol**

· Cigydda un pwrpas · Arall

Adran D - Manylion cyrchu (2)

CPH/Cyfeirnod arall

--	--	--

Nifer yr anifeiliaid

--

Yr wyf yn datgan bod y manylion yn yr adran hon yn gywir.

Llofnod

--

Enw mewn PRIF lythrennau

--

Dyddiad

--

Rhif ffôn (+ cod deialu
cenedlaethol)

--

I'w llenwi gan y Ceidwad yn
y Daliad ymadael

I'w llenwi gan y Ceidwad yn
y Daliad ymadael

Movement Document under the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006

Section A - Identification and traceability. (Please also complete Section C below.)

1. Departure details Return from Tack? Return from Sheep Dog Trials
 Departure CPH/
 Other ref. Return from rounding up from common land?

Keeper's name and full postal address of holding of **Departure**

Name and full postal address of Owner (if different)

Postcode

Postcode

2. **Details of sheep** **goats** (Please tick appropriate box)

Number of animals	Description (eg ewes and kids)	Lot Number	Relevant Code or Flock / Herd Mark
Total number of animals			

I declare the above details are correct

Keeper's Signature

Date

Name in BLOCK letters

Tel. No. (incl. national dialling code)

Section B - Transporter details

Postcode

Assured Scheme number

Vehicle registration(s)/ trailer ID

Date and place vehicle last cleansed

Transporters permit No. (where applicable)

Expected duration of intended journey

Loading

Date:

Start time:

Departure

Date:

Time:

Unloading

Date:

Finish time:

Time and place where rest stops undertaken including if the animals were watered and/or fed (if over 8 hours)

Tel. No. (incl. nat. dialling code)

Transporter's Signature

Name in BLOCK letters

Section C - Destination details (1)

Completion by Keeper at
Departure Holding

Name and full postal address

Postcode

State type of Market or Collecting Centre, where appropriate

· Dedicated slaughter · Other

Section D - Destination details (2)

Completion by Keeper at
Holding of Destination

CPH/Other ref.

No. of animals received

I declare the details in this section are correct.

Signature

Name in BLOCK letters

Date

Tel. No. (incl. nat. dialling code)

SAMPLE DOCUMENT "

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif (Cy.)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Defaid a Geifr
(Cofnodion, Adnabod a Symud)
(Cymru) (Diwygio) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 2926 (W.261)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Sheep and Goats (Records,
Identification and Movement)
(Wales) (Amendment) Order 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W417/11/06

ON